**RHYBUDD o Penderfyniadau'r cyfarfod hybrid o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2025**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, A M Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Dylan Rees a Liz Wood

Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid'
Pennaeth Gwasanaethau Tai.
Swyddog Cyfathrebu (GJ).

(2.00 o'r gloch yp - 3.15 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEAM A'R PWNC | **2. Rhybudd o Gynnig** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Pont y Borth**<br><br>**Cafodd y gwelliant i'r cynnig ei dderbyn fel a ganlyn:-**<br><br>• **Mae Grŵp Annibynwyr Môn yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i gymryd pob cam posibl er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ail agor Pont y Borth fel mater o frys.**<br>• **Caewyd y bont heb unrhyw ymgynghori ymlaen llaw a heb hysbysu'r Cyngor Sir.**<br>• **Mae gan y Cyngor bryderon dybryd ynglyn â diffyg gwytnwch y ddau groesiad presennol dros Y Fenai sydd wedi dod i'r amlwg unwaith eto yn sgil cau Pont y Borth yn gyfan gwbl gan adael un croesiad yn unig.**<br>• **Mae'r Cyngor hefyd yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi dal y contractwyr i gyfrif ac am eu hamharodrwydd i ystyried y cysylltiadau rhwng Môn a'r tir mawr a'r** |

| | |
|---|---|
| | **effaith ar drigolion a chymunedau'r Ynys.**<br>• **Gofynnir i Lywodraeth Cymru gamu i'r adwy a chynnig cymorth i fusnesau tref Porthaethwy, sydd wedi dioddef llawer oherwydd yr holl broblemau efo'r Bont dros y 3 mlynedd diwethaf. Mae busnesau, yn enwedig busnesau lletygarwch, wedi dioddef yn sgil cau'r bont dros nos.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEAM A'R PWNC | **3. Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25 a'r Adroddiad ISA 260** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2024/25 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i lofnodi'r cyfrifon archwiliedig terfynol ar gyfer 2024/25.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4. Ailstrwythuro'r Tim Rheoli Corfforaethol** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br><br>• **Dileu'r swydd Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid o strwythur Rheoli Corfforaethol y Cyngor;**<br><br>• **Creu dau Wasanaeth penodol newydd a Phenaethiaid Gwasanaeth fel a ganlyn:**<br><br>**Pennaeth Gwasanaeth (Digidol, Perfformiad a Moderneiddio)**<br>**Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer)**<br><br>• **Derbyn y penderfyniadau ym mharagraffau 1 a 2 uchod, i awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau uchod wedi i'r Pwyllgor Penodiadau gymeradwyo'r disgrifiadau swyddi newydd.** |